

ATODLEN 1

(a gyflwynir gan adran 15)

DEUNYDD CYMWYS: DEUNYDDIAU PENODEDIG AC AMODAU

Cyffredinol

- 1 Mae’r Tabl yn nodi—
- (a) yn yr ail golofn, y deunyddiau sydd wedi eu pennu at ddibenion gofyniad 1 yn adran 15;

(b) yn y drydedd golofn, yr amodau (os oes rhai) sy’n gymwys mewn perthynas â’r deunyddiau at ddibenion gofyniad 2 yn yr adran honno.

TABL

Grŵp	Deunyddiau	Amodau
1	Creigiau a phridd	Eu bod yn digwydd yn naturiol
2	Deunydd cerameg neu goncrit	
3	Mwynau	Eu bod wedi eu prosesu neu eu paratoi
4	Slag ffwrnais	
5	Lludw	
6	Cyfansoddion anorganig actifedd isel	
7	Calsiwm sylffad	1. Bod y drwydded amgylcheddol sy’n ymwneud â’r safle y gwaredir y deunydd ynddo yn awdurdodi gwarediadau tirlenwi o wastraff nad yw’n beryglus yn unig. 2. Bod y deunydd yn cael ei waredu mewn cell nad yw’n cynnwys unrhyw wastraff bioddiraddadwy.
8	Calsiwm hydrocsid a heli	Ei fod wedi ei waredu mewn ceudod heli

Gwybodaeth Cychwyn

I1

Atod. 1 para. 1 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)

I2

[Atod. 1 para. 1](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

Dehongli

- 2 Mae’r Tabl i’w ddehongli yn unol â’r paragraffau a ganlyn o’r Atodlen hon.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 1. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

- I3** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I4 [Atod. 1 para. 2](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

3 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 1—

- (a) creigiau;
- (b) clai;
- (c) tywod;
- (d) grafel;
- (e) tywodfaen;
- (f) calchfaen;
- (g) malurion cerrig;
- (h) caolin;
- (i) cerrig adeiladu;
- (j) cerrig o ddymchwel adeiladau neu strwythurau;
- (k) llechi;
- (l) isbridd;
- (m) silt;
- (n) sorod.

Gwybodaeth Cychwyn

- I5** Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I6 [Atod. 1 para. 3](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

4 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 2—

- (a) gwydr, gan gynnwys enamel wedi ei ffritio;
- (b) cerameg, gan gynnwys brics, brics a morter, teils, nwyddau clai, crochenwaith, tseini a deunyddiau anhydrin;
- (c) concrit, gan gynnwys blociau concrit cyfnerthedig, brisblociau a blociau aercrit.

Gwybodaeth Cychwyn

- I7** Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I8 [Atod. 1 para. 4](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

5 Nid yw'r deunyddiau sydd yng Ngrŵp 2 yn cynnwys—

- (a) ffeibr gwydr na phlastig a gyfnerthwyd â gwydr;
- (b) golchion gweithfeydd concrit.

Gwybodaeth Cychwyn

- I9** Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I10 [Atod. 1 para. 5](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

6 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 3—

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 1. (See end of Document for details)

- (a) tywod mowldio, gan gynnwys tywod ffowndri defnyddiedig;
- (b) clai, gan gynnwys clai mowldio ac amsugnyddion clai (gan gynnwys pridd pannwr a bentonit);
- (c) amsugnyddion mwynol;
- (d) ffeibrau mwynol o waith dyn, gan gynnwys ffeibrau gwyr;
- (e) silica;
- (f) mica;
- (g) treulyddion mwynol.

Gwybodaeth Cychwyn

- I11** Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I12 [Atod. 1 para. 6](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

7 Nid yw'r deunyddiau sydd yng Ngrŵp 3 yn cynnwys—

- (a) tywod mowldio sy'n cynnwys glynwyr organig;
- (b) ffeibrau mwynol o wneuthuriad dyn a wnaed o—
 - (i) plastig a gyfnerthwyd â gwyr, neu
 - (ii) asbestos.

Gwybodaeth Cychwyn

- I13** Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I14 [Atod. 1 para. 7](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

8 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 4—

- (a) gwastraff a gweddillion gwydredig o brosesu mwynau yn thermol pan fo'r gwastraff neu'r gweddillion yn ymdodeddig ac yn anhydawdd;
- (b) slag o losgi gwastraff.

Gwybodaeth Cychwyn

- I15** Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I16 [Atod. 1 para. 8](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

9 Yr unig ddeunyddiau sydd yng Ngrŵp 5 yw lludw sy'n codi a lludw gwaelod—

- (a) o hylosgi pren neu wastraff, neu
- (b) o hylosgi glo neu olog petrolewm (gan gynnwys lludw sy'n codi a lludw gwaelod a gynhyrchir pan gaiff glo neu olog petrolewm ei hylosgi gyda biomas).

Gwybodaeth Cychwyn

- I17** Atod. 1 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I18 [Atod. 1 para. 9](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

10 Nid yw'r deunyddiau sydd yng Ngrŵp 5 yn cynnwys lludw sy'n codi—

- (a) o slwtsh carthion, neu
- (b) o losgyddion gwastraff trefol, gwastraff clinigol neu wastraff peryglus.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 1. (See end of Document for details)

Gwybodaeth Cychwyn

- I19** Atod. 1 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I20 Atod. 1 para. 10 mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

- 11 Y deunyddiau a ganlyn yn unig sydd yng Ngrŵp 6—
- (a) gwastraff adwaith seiliedig ar galsiwm, a'r gwastraff hwnnw'n deillio o gynhyrchu titaniwm deuocsid;
 - (b) calsiwm carbonad;
 - (c) magnesiwm carbonad;
 - (d) magnesiwm ocsid;
 - (e) magnesiwm hydrocsid;
 - (f) haearn ocsid;
 - (g) fferrig hydrocsid;
 - (h) alwminiwm ocsid;
 - (i) alwminiwm hydrocsid;
 - (j) sirconiwm deuocsid.

Gwybodaeth Cychwyn

- I21** Atod. 1 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I22 Atod. 1 para. 11 mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

- 12 Mae Grŵp 7 yn cynnwys calsiwm sylffad, gypswm a phlastrau sy'n seiliedig ar galsiwm sylffad ond nid yw'n cynnwys bwrdd plastr.

Gwybodaeth Cychwyn

- I23** Atod. 1 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I24 Atod. 1 para. 12 mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

- 13 Yn nhrydedd golofn y Tabl, ystyr “gwastraff nad yw'n beryglus” yw gwastraff nad yw'n wastraff peryglus o fewn ystyr Cyfarwydddeb [2008/98/EC](#) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar wastraff dyddiedig 18 Tachwedd 2008.

Gwybodaeth Cychwyn

- I25** Atod. 1 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I26 Atod. 1 para. 13 mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

Gwybodaeth Cychwyn

- I3** Atod. 1 para. 2 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I4 Atod. 1 para. 2 mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
I5 Atod. 1 para. 3 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I6 Atod. 1 para. 3 mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
I7 Atod. 1 para. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
I8 Atod. 1 para. 4 mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
I9 Atod. 1 para. 5 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 1. (See end of Document for details)

- I10 [Atod. 1 para. 5](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I11 Atod. 1 para. 6 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I12 [Atod. 1 para. 6](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I13 Atod. 1 para. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I14 [Atod. 1 para. 7](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I15 Atod. 1 para. 8 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I16 [Atod. 1 para. 8](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I17 Atod. 1 para. 9 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I18 [Atod. 1 para. 9](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I19 Atod. 1 para. 10 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I20 [Atod. 1 para. 10](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I21 Atod. 1 para. 11 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I22 [Atod. 1 para. 11](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I23 Atod. 1 para. 12 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I24 [Atod. 1 para. 12](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)
- I25 Atod. 1 para. 13 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 97\(2\)](#)
- I26 [Atod. 1 para. 13](#) mewn grym ar 1.4.2018 gan [O.S. 2018/35](#), [ergl. 3](#)

Newidiadau i ddeddfwriaeth:

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, ATODLEN 1.